For office use only
Representor Number:

Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

Ymgynghoriad Cyhoeddus ynghylch y Cynllun wedi'i Adneuo – Ffurflen Sylwadau

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori ynghylch yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd wedi'i Adneuo. Mae'r Cynllun wedi'i Adneuo yn nodi'r canlynol:

- Y materion a'r amcanion sy'n sail i'r weledigaeth ar gyfer y Cynllun;
- Y weledigaeth sydd gan y Cyngor ar gyfer y Fwrdeistref Sirol; a'r strategaeth sy'n ceisio ei chyflawni;
- Polisïau strategol a pholisïau ar sail materion neu bynciau sy'n deillio o'r strategaeth;
- Dyraniadau a dynodiadau safleoedd ar gyfer defnyddiau tir penodol, sy'n gyson â'r strategaeth a'r polisïau wedi'u nodi yn y Cynllun.

Mae'r Cynllun wedi'i Adneuo yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad ysgrifenedig a'r map cynigion a chyfyngiadau.

Mae rhagor o fanylion yn yr atodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cynllun, ac yn y ddogfennaeth Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Mae Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn brosesau gwahanol, ond cysylltiedig, sy'n digwydd ochr yn ochr â pharatoi'r cynllun. Mae dogfennau sy'n ymwneud â'r rhain hefyd yn destun ymgynghoriad. Dylai sylwadau sy'n ymwneud â'r Cynllun wedi'i Adneuo gael eu gwneud drwy ddefnyddio Adran 2 o'r ffurflen hon, a sylwadau sy'n ymwneud â'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig neu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drwy ddefnyddio Adran 3.

I gael rhagor o wybodaeth ac i wneud sylwadau ar-lein, ewch i:
https://caerphilly.oc2.uk

RHAID I SYLWADAU DDOD I LAW ERBYN <u>DYDD MERCHER 16 RHAGFYR 2026</u>.

NI FYDD Y RHAI SY'N DOD I LAW AR ÔL Y DYDDIAD HWN YN CAEL EU HYSTYRIED.

Os oes angen unrhyw help arnoch i lenwi'r ff urfl en hon, cysylltwch â thîm y CDLl Ebost: ldp@caerphilly.gov.uk Ffôn: 01443 866777

Sut fyddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth?

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth? Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu unrhyw sylwadau a wnewch fel rhan o un o'r camau ymgynghori ffurfiol ym mhroses y CDLl at ddibenion sicrhau bod eich sylwadau wedi'u hystyried yn y broses o baratoi'r cynllun. Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu cadw i'n galluogi i roi gwybod ichi am y cynnydd drwy gydol proses y CDLl.

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'ch gwybodaeth yw bod angen ei wneud ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd.

Bydd staff yn Adran Gynllunio'r Cyngor yn cofnodi eich manylion ac unrhyw sylwadau y gwnewch yng nghronfa ddata'r CDLl, gan gynnwys eich manylion cyswllt, at ddibenion cydnabod eich sylwadau a'ch hysbysu am gamau proses baratoi'r cynllun yn y dyfodol.

Bydd eich sylwadau llawn yn cael eu cyhoeddi ar-lein, a bydd yr holl sylwadau sy'n dod i law yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio yn Swyddfeydd y Cyngor a gellir rhyddhau copïau o'ch sylwadau i drydydd partïon ar gais. Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu dileu mewn unrhyw gopïau o'r ffeiliau y gellir eu gweld yn gyhoeddus.

Bydd barn pawb sydd wedi ymateb yn cael eu coladu mewn adroddiad ymgynghori a fydd yn cael ei gyhoeddi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gall hyn gynnwys rhifau ac enwau a roddir i'r rhai sy'n cyflwyno sylwadau, ond nid manylion cyswllt.

Bydd copïau llawn o'r holl sylwadau yn cael eu darparu i'r Arolygiaeth Gynllunio fel rhan o'r Archwiliad o'r CDLl a bydd yr Arolygydd Cynllunio a benodir i archwilio'r cynllun, drwy ei Swyddog Rhaglen, yn cysylltu â'r holl bobl a roddodd sylwadau i benderfynu pwy fydd yn cymryd rhan yn yr Archwiliad o'r CDLl.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth gan gynnwys yr hawl i wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae'ch gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i brosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, gwelwch os gwelwch yn dda: https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-free dom-of-information/Questions-and- complaints?lang=cy-gb. Gellir gweld yr hysbysiad preifatrwydd llawn yn: https://www.caerphilly.gov.uk/ My-Council/Data-protection-and- freedom-of-information/Privacy-notices?lang=cy-gb

Adran 1: Eich Manylion

Teitl | Enw Cyntaf | Cyfenw

Sefydliad (os yn gymwys)

Swydd o fewn y Sefydliad (os yw'n gymwys)

Cyfeiriad E-bost

Cyfeiriad

Cod Post | Rhif ffôn cyswllt

Mae'n well gennym ohebu â phartïon â diddordeb trwy e-bost. Os byddai'n well gennych dderbyn gohebiaeth trwy lythyr, ticiwch y blwch canlynol.

Llythyr

Er mwyn i ni ohebu â chi yn eich dewis iaith, a allwch gadarnhau a ydych yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Cymraeg | Saesneg

Manylion Yr Asiant

(Cwblhewch yr adran hon dim ond os yw asiant yn gweithredu ar eich rhan. Bydd asiantau yn derbyn yr holl ohebiaeth CDLl ar ran y cynrychiolydd).

Teitl | Enw Cyntaf | Cyfenw

Sefydliad yr Asiant

Swydd o fewn Sefydliad (os yw'n berthnasol)

Cyfeiriad E-bost

Cyfeiriad

Cod Post | Rhif ffôn cyswllt

Adran 2: Cynllun wedi'i Adneuo

Cwestiwn 1: Beth yw eich barn chi ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd wedi'i Adneuo (e.e. polisïau, dyraniadau safleoedd)? Nodwch pa safle, polisi neu rif paragraff y mae eich sylwadau yn cyfeirio ato. Os ydych chi'n gwneud sylwadau ar fwy nag un safle, polisi neu baragraff, defnyddiwch ddalen ar wahân ar gyfer pob un.

Cytuno/Cefnogi ☐

Anghytuno/Gwrthwynebu ☐

Sylwadau ☐

Defnyddiwch y gofod isod i nodi eich sylwadau:

Cwestiwn 2: Y cam nesaf yn y broses fydd cael arolygydd cynllunio annibynnol i ystyried y Cynllun wedi'i Adneuo, a fydd yn cynnal archwiliad cyhoeddus.

A yw'n ddigonol i'ch sylwadau gael eu hystyried yn ysgrifenedig, neu a ydych chi'n meddwl bod angen i chi fod yn bresennol yn yr archwiliad?

Noder y bydd yr arolygydd yn trin sylwadau ysgrifenedig a'r rhai sy'n cael eu gweud yn bersonol yn gyfartal.

☐ Sylwadau ysgrifenedig ☐ Bod yn bresennol yn yr archwiliad

Os hoffech chi fod yn bresennol yn yr archwiliad, esboniwch eich rhesymau dros hyn.

Cwestiwn 3: Pa effaith, os o gwbl, bydd y Cynllun Adneuo yn cael ar yr iaith Gymraeg? Eglurwch, os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 4: A ydych yn credu bod y Cynllun Adneuo yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? Eglurwch, os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 5: Sut gallai'r Cynllun Adneuo gefnogi'r iaith Gymraeg yn well, neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

For office use only

Adran 3: Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig / Asesiad Rheoliadau Cynefin

Cwestiwn 6: Pa ran o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig / Asesiad Rheoliadau Cynefin y mae eich sylwadau'n cyfeirio ato?

- ☐ **Adroddiad Cwmpasu**
- ☐ **Asesiad Strategaethau a Ffefrir a Strategaethau Amgen**
- ☐ **Adroddiad Amgylcheddol**
- ☐ **Asesiad Rheoliadau Cynefin**

Nodwch fel y bo'n briodol:

Rhif y dudalen ☐

Defnyddiwch y gofod isod i nodi eich sylwadau.

Adran 4: Monitro Cydraddoldeb

Cwestiwn 7: **A yw eich ymateb i'r arolwg hwn wedi'i ddylanwadu gan unrhyw un o'ch nodweddion personol sy'n cael eu diogelu o dan y gyfraith?** Mae'r rhain yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil (gan gynnwys lliw, cenedlaetholdeb, tarddiad ethnig neu genedlaethol), crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Os felly, rhowch fanylion isod.

Adran 5: Arolwg o Fodlonrwydd â'r Ymgynghoriad

A wnewch chi dreulio ychydig o amser yn dweud wrthym sut oedd gweithdrefn yr ymgynghoriad yn eich barn chi. Caiff y wybodaeth sydd yn cael ei rhoi gennych chi ei defnyddio er mwyn hysbysu ymgynghoriadau'r dyfodol y byddwn yn ymgymryd â nhw.

Sut ddaethoch chi i wybod am yr ymgynghoriad hwn?

☐ Gwefan ☐ Poster ☐ Llythyr

☐ Arall, Nodwch yma:

Pa mor fodlon oeddech chi â'r broses ymgynghori?

☐ Bodlon iawn

☐ Bodlon

☐ Ddim yn fodlon nac yn anfodlon

☐ Anfodlon

☐ Anfodlon iawn

Er ein bod wedi ceisio'n galed i sicrhau bod yr ymgynghoriad hwn yn hygyrch a hawdd ei ddeall, rydym yn gwerthfawrogi bod bob amser le i wella. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau ar sut i wella'r broses ymgynghori hon, a wnewch chi eu hamlinellu isod os gwelwch yn dda.

Dylid dychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi at: Y Tîm CDLl, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.

Dylid dychwelyd cynrychiolaethau erbyn canol nos ar **16 Rhagfyr 2026**. Ni fydd cynrychiolaethau sydd yn cael eu derbyn ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried..

Diolch am dreulio amser yn llenwi'r ffurflen gynrychiolaeth, mae eich barn yn bwysig iawn i ni.